# GŴYL BENSAERNÏAETH CYMRU 2015
# WALES FESTIVAL OF ARCHITECTURE

**Spring 2015** sees the return of the **Wales Festival of Architecture** to its base at **Aberystwyth Arts Centre** – with **satellite events** extending to **other parts of Wales throughout the months of April and May**.

Everyone with an **interest in how buildings and places are designed** and how they evolve over time is welcome to join members of the **Royal Society of Architects in Wales** for a month or more of talks, exhibitions and films.

Highlights include the **announcement of the winner of the 2014 Writer's Shed competition** and screenings of **The Human Scale**, a documentary on the work of Danish architect Jan Gehl in cities across the world.

**1 April - 15 May** Aberystwyth Arts Centre and other venues across Wales







Exhibitions include **A Celebration of Welsh Architecture**, recognising the best new building designs in Wales and **Inside Welsh Homes**, a unique visual archive offering a privileged glimpse inside Welsh homes over time. **Discussion forums** invite you to explore the **evolving nature of the modern house** in our rural towns or the **impact of a new school of architecture for Wales**.

## EXHIBIT — 14 March – 02 May, Aberystwyth — A Celebration of Welsh Architecture

Each scheme in this presentation of award-winning buildings in Wales in 2014 responds creatively to its surroundings and brings something special and worthwhile to the local community. ***Foyer, Aberystwyth Arts Centre.***

## EXHIBIT — 21 March – 16 May, Aberystwyth — Britain from above: Wales

This exhibition of historic photographs presents unfamiliar images of familiar places and aims to encourage viewers to explore the meaning and impact of change, place and memory. ***Gallery 2, Aberystwyth Arts Centre.***

## EXHIBIT — 11 April – 06 June, Aberystwyth — Inside Welsh homes

A privileged glimpse inside Welsh homes over time, through images in the Royal Commission's archive. This and the above exhibition are courtesy of RCAHMW. ***Cafe Gallery, Aberystwyth Arts Centre.***

## TALK — 14 April, 6 - 8pm, Aberystwyth — Festival Launch: discussion on modern design in the countryside

Two speakers share their experiences of realising successful examples of modern design in the countryside, with Mark Robinson of Living Architecture, and Geraint Roberts of B3 Architects. ***Theatre, Aberystwyth Arts Centre, followed by drinks reception.***

## TALK — 11 April, 2pm, Llandybie — Regenerating our built heritage

Two lectures on different aspects of the built heritage of Wales: Michael Davies on 'A life in ruins' and Richard Keen on Industrial Buildings as 'symbols of subjection' to World Heritage Status. Tickets £5 in advnace from Courtpembrey@outlook.com, or call 01554 835 573. ***Llandybie Memorial Hall, Carmarthenshire.***

## TALK — 14 April, Haverfordwest and Swansea — 20 rules of thumb to make Passivhaus easy

RSAW West Wales Branch presents a bite-size Passivhaus briefing from BRE, for RSAW members and colleagues. ***Free event but please reserve through RSAW. There are two sessions: 1 - 2 pm at Pembroke Design, Haverfordwest, and 5 - 6 pm at Huw Griffiths Architects, Swansea.***

## EVENT — 23 April, 4pm, Amlwch — The Copper Kingdom Centre: award winning building tour

North Wales Society of Architects offers a unique chance to discover the design process behind the award-winning Copper Kingdom Visitor Centre in Amlwch, with architect, Elinor Gray-Williams of Donald Insall Associates. ***Booking essential; contact Leonie.Wainwright@barronandsmith.com, 01492 533 136***

## TALK — 24 April, 10.30am-4pm, Portmeirion — 2015 RSAW Spring School: Celebrating Creativity

A day of 'undiluted architectural delight' in the setting of Sir Clough Williams-Ellis's Portmeirion with McCullough Mulvin architects and Malcolm Fraser Architects among the guest speakers. At 3.30 pm the National Poet of Wales Gillian Clarke will announce the winner of the 2014 Writer's Shed competition. ***Attendance fee applies.***

## FILM — 27 April, 5.45pm, Aberystwyth — Coffee-film-chat: The human scale

In this documentary, Danish architect Jan Gehl explores how we can build cities that meet the human need for inclusion and intimacy. The film will be followed by open discussion and refreshments. ***Cinema, Aberystwyth Arts Centre.***

## FILM — 29 April, 5.30pm, Cardiff — Coffee-film-chat: The human scale

The Cardiff screening also includes an open discussion and refreshments. ***Birt Acres Lecture Theatre, Bute Building, Cardiff University.***

## EVENT — 30 April, 6 - 8pm, Cardiff — Welsh Architecture Awards 2015 presentation ceremony

***Champagne, canapés, celebrations, congratulations!*** Join us for a special evening to mark the announcement of the 2015 Welsh Architecture Awards, the first stage in the UK RIBA Awards. ***Creative Quarter, Morgan Arcade. Please note an attendance fee applies to this event, contact RSAW to book.***

## EVENT — 12 May, Swansea — A new School of Architecture in Swansea: Identity, ideas, involvement

A forum to discuss the impact of a new School of Architecture in Swansea in 2016; with Prof Richard Parnaby, University of Wales Trinity St. David. ***Alex Library, Alexandra Road, Swansea. Contact RSAW to book.***

## EXHIBIT — 09 May - 06 June, Abergavenny — Time and Place: an exhibition by Philippa Robbins

An exhibition of paintings and sculpture by Philippa Robbins including artworks from Philippa's role as Artist in Residence at Stormy Castle, a private house in Gower designed by Loyn + Co Architects. www.artshopandgallery.co.uk ***Private view 7 - 9pm Friday 8 May, Chapel Gallery, Market Street.***

## EXHIBIT — 15 May, Cardiff — Welsh School of Architecture: 2015 Vertical Studio Exhibition

An exhibition of the work of 1st and 2nd year students from the Welsh School of Architecture, Cardiff University, drawing on themes of public engagement in architecture, rural landscapes and Cardiff's industrial past. ***Various locations around the city centre.***

All events are free of charge and open to the public unless otherwise noted. For more information please contact us at rsaw@riba.org or call 02920 228 987


The Royal Society of Architects in Wales
1/05 The Creative Quarter
Morgan Arcade
Cardiff
CF10 1AF


celebrating the **power** and **pleasures** of well-considered **buildings** and **places**

RSAW
Architecture.com/wales


Design Commission for Wales / Comisiwn Dylunio Cymru
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre
Regeneration Skills Collective / Cydweithfa Sgiliau Adfywio
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru / Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
Prifysgol Aberystwyth University
Powys
Cyngor Sir Ceredigion County Council

# GŴYL BENSAERNÏAETH CYMRU 2015
# WALES FESTIVAL OF ARCHITECTURE

1 Ebrill - 15 Mai — Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a chanolfannau eraill ledled Cymru



dathlu **pŵer** a **phleser adeiladau** a **llecynnau** sy'n taro deuddeg

RSAW
Architecture.com/wales

Yng **ngwanwyn 2015**, daw **Gŵyl Bensaernïaeth Cymru** adref i **Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth** – gyda **digwyddiadau lloeren** mewn **rhannau eraill o Gymru trwy gydol Ebrill a Mai.**

Os oes gennych **ddiddordeb yn y ffordd y caiff adeiladau a lleoedd eu dylunio** a sut y maent yn datblygu dros amser, mae croeso i chi ymuno ag aelodau **Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru** am fis a mwy o sgyrsiau, arddangosfeydd a ffilmiau.

Ymhlith yr **uchafbwyntiau fydd cyhoeddi enillydd cystadleuaeth Sied Ysgrifennu 2014** a dangosiadau o **The Human Scale,** sef ffilm ddogfen am waith y pensaer Jan Gehl o Ddenmarc mewn dinasoedd ledled y byd.



Bydd yr arddangosfeydd yn cynnwys **Dathliad o Bensaernïaeth Cymru**, sy'n cydnabod adeiladau newydd gorau Cymru ac **Y Tu Mewn i Gartrefi Cymru**, sef archif weledol unigryw yn rhoi'r fraint i ni o gael cipolwg y tu mewn i gartrefi Cymreig dros amser. Bydd **fforymau trafod** yn eich gwahodd i ystyried sut y mae **tai yn esblygu** yn ein trefi gwledig neu **effaith ysgol bensaernïaeth newydd yng Nghymru.**

**GWELD**

## 14 Mawrth – 02 Mai, Aberystwyth — Dathliad o Bensaernïaeth Cymru

Mae pob cynllun yn y cyflwyniad hwn o adeiladau sydd wedi ennill gwobrau yng Nghymru yn 2014 yn ymateb mewn ffordd greadigol i'w amgylchoedd ac yn dod â rhywbeth arbennig a gwerth chweil i'r gymuned leol. ***Y Cyntedd, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.***

**GWELD**

## 21 Mawrth – 16 Mai, Aberystwyth — Prydain oddi uchod: Cymru

Mae'r arddangosfa hon o ffotograffau hanesyddol yn cyflwyno delweddau dieithr o lefydd cyfarwydd ac yn ceisio'n hannog i feddwl am ystyr ac effaith newid, lle a chof. ***Oriel 2, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.***

**GWELD**

## 11 Ebrill – 06 Mehefin, Aberystwyth — Y Tu Mewn i Gartrefi Cymru

Cawn y fraint o gael cipolwg y tu mewn i gartrefi Cymreig dros amser, trwy gyfrwng lluniau o archif y Comisiwn Brenhinol. Cynhelir yr arddangosfa hon a'r un uchod trwy garedigrwydd RCAHMW. ***Oriel y Caffi, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.***

**TRAFOD**

## 14 Ebrill, 6 - 8pm, Aberystwyth — Lansio'r Ŵyl: trafodaeth am ddylunio modern yng nghefn gwlad

Bydd dau siaradwr yn rhannu eu profiadau o wireddu enghreifftiau llwyddiannus o ddylunio modern yng nghefn gwlad, gyda Mark Robinson o Living Architecture, a Geraint Roberts o Penseiri B3. ***Y Theatr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, gyda derbyniad diodydd i ddilyn.***

**TRAFOD DIGWYDD**

## 11 Ebrill, 2pm, Llandybie — Adfywio ein treftadaeth adeiledig

Dwy ddarlith ar wahanol agweddau ar dreftadaeth adeiledig Cymru: Michael Davies ar 'Bywyd mewn adfeilion' a Richard Keen ar Adeiladau Diwydiannol fel 'symbolau darostyngiad' i Statws Treftadaeth y Byd. Tocynnau £5 ymlaen llaw o Courtpembrey@outlook.com, 01554 835 573. ***Neuadd Goffa Llandybie, Sir Gaerfyrddin.***

**TRAFOD DIGWYDD**

## 14 Ebrill, Hwlffordd ac Abertawe — 20 syniad i wneud Passivhaus yn hawdd

Mae Cangen Gorllewin Cymru RSAW yn cynnig cyflwyniad cryno i Passivhaus gan BRE, ar gyfer aelodau RSAW a chydweithwyr. ***Am ddim ond mae angen cadw lle trwy RSAW. Mae dwy sesiwn: 1 - 2pm yn Pembroke Design, Hwlffordd, a 5 - 6pm yn Huw Griffiths Architects, Abertawe.***

**DIGWYDD GWELD**

## 23 Ebrill, 4pm, Amlwch — Canolfan y Deyrnas Gopr: taith o gwmpas yr adeilad

Mae Cymdeithas Penseiri Gogledd Cymru yn cynnig cyfle unigryw i ddysgu am y broses ddylunio y tu ôl i Ganolfan Ymwelwyr y Deyrnas Gopr yn Amlwch, gyda'r pensaer Elinor Gray-Williams o Donald Insall Associates. ***Rhaid cadw lle; cysylltwch â Leonie.Wainwright@barronandsmith.com 01492 533 136***

**TRAFOD GWELD**

## 24 Ebrill, 10.30am-4pm, Portmeirion — Ysgol Wanwyn RSAW 2015: Dathlu Creadigrwydd

Diwrnod o fwynhau 'pleser pensaernïol pur' ym mhentref Syr Clough Williams-Ellis, Portmeirion, gyda chynrychiolwyr o McCullough Mulvin Architects a Malcolm Fraser Architects ymhlith y siaradwyr gwadd. Am 3.30pm, bydd Bardd Cenedlaethol Cymru, Gillian Clarke yn cyhoeddi enw enillydd cystadleuaeth Sied Ysgrifennu 2014. ***Codir tâl am y diwrnod.***

**GWYLIO**

## 27 Ebrill, 5.45pm, Aberystwyth — Coffi-ffilm-sgwrs: The human scale

Yn y ffilm ddogfen hon, mae'r pensaer Jan Gehl o Ddenmarc yn ystyried sut y gallwn adeiladu dinasoedd sy'n diwallu angen pobl am agosatrwydd a theimlo'n rhan o'r lle. Bydd trafodaeth agored a lluniaeth ar ôl y ffilm. ***Y Sinema, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.***

**GWYLIO**

## 29 Ebrill, 5.30pm, Caerdydd — Coffi-ffilm-sgwrs: The human scale

Mae dangosiad Caerdydd yn cynnwys trafodaeth agored a lluniaeth hefyd. ***Darlithfa Birt Acres, Adeilad Bute, Prifysgol Caerdydd.***

**TRAFOD DIGWYDD**

## 30 Ebrill, 6 - 8pm, Caerdydd — Seremoni i gyflwyno Gwobrau Pensaernïaeth Cymru 2015

***Siampên, danteithion, dathliadau, llongyfarchiadau!*** Ymunwch â ni ar noson arbennig i ddathlu cyhoeddi enillwyr Gwobrau Pensaernïaeth Cymru 2015, cam cyntaf Gwobrau RIBA y Deyrnas Unedig. ***Creative Quarter, Arcêd Morgan. Codir tâl mynediad; cysylltwch â RSAW i gadw lle.***

**TRAFOD DIGWYDD**

## 12 Mai, Abertawe — Ysgol Bensaernïaeth newydd yn Abertawe: Cymeriad, canfyddiad, cysylltiad

Fforwm i drafod effaith Ysgol Bensaernïaeth newydd yn Abertawe yn 2016; gyda'r Athro Richard Parnaby, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. ***Llyfrgell Alex, Heol Alexandra, Abertawe. Cysylltwch ag RSAW i gadw lle.***

**DIGWYDD GWELD**

## 09 Mai – 06 Mehefin, Y Fenni — Amser a Lle: Gweithiau celf gan Philippa Robbins

Arddangosfa o luniau a cherfluniau gan Philippa Robbins, yn cynnwys darnau o'i gwaith fel Artist Preswyl yn Stormy Castle, tŷ preifat ar Benrhyn Gŵyr a ddyluniwyd gan Loyn + Co Architects. www.artshopandgallery.co.uk ***Arddangosiad Preifat 7 - 9pm nos Wener 8 Mai, Oriel y Capel, Stryd y Farchnad.***

**TRAFOD GWELD**

## 15 Mai, Caerdydd — Ysgol Bensaernïaeth Cymru: Arddangosfa Stiwdio Fertigol 2015

Arddangosfa o waith myfyrwyr y flwyddyn gyntaf a'r ail yn Ysgol Bensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, ar themâu fel cysylltiad y cyhoedd â phensaernïaeth, tirweddau gwledig a gorffennol diwydiannol Caerdydd. ***Gwahanol leoliadau yng nghanol y ddinas.***

Mae'r holl ddigwyddiadau am ddim ac yn agored i'r cyhoedd oni nodir yn wahanol. Cewch ragor o wybodaeth trwy ebostio rsaw@riba.org neu ffonio 02920 228 987


**Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru**
1/05 The Creative Quarter
Arcêd Morgan
Caerdydd
CF10 1AF



Design Commission for Wales / Comisiwn Dylunio Cymru
Canolfan y Celfyddydau / Aberystwyth Arts Centre
Regeneration Skills Collective / Cydweithfa Sgiliau Adfywio
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru / Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
Prifysgol Aberystwyth University
Powys
Cyngor Sir Ceredigion County Council